

Rhif: WG30201



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Mesurau Rheoli Cynaliadwy ar gyfer Pysgodfa Cregyn Moch
Cymru

Hydref 2017

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

1. Cefndir
2. Cyfnod a Dosbarthiad yr Ymgynghoriad
3. Categoriâu Allweddol
4. Ymatebion
5. Cwestiynau
6. Y Camau Nesaf
7. Rhestr o'r Ymatebwyr

1. CEFNDIR

Mae pysgodfa cregyn moch Cymru o dan bwysau cynyddol. Yr unig fesur rheoli sydd arni ar hyn o bryd yw'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS) (y maint glanio lleiaf gynt) o 45mm a bennwyd gan yr UE. Nid yw hyn yn ddigon i warchod y stoc a sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y bysgodfa yng Nghymru.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd gofyn i'r diwydiant am ei farn am amrywiaeth o fesurau rheoli cynaliadwy ar gyfer y bysgodfa cregyn moch. Caiff y mesurau y cytunir arnynt eu hymgorffori mewn cynllun rheoli cynaliadwy ar gyfer pysgodfa cregyn moch Cymru a thrwyddo bydd Llywodraeth Cymru'n gallu gwireddu'r nod o greu pysgodfa sy'n cael ei rheoli'n gynaliadwy yn y tymor hir. Nod y cynllun rheoli yw cynyddu'r manteision economaidd a diogelu swyddi gan roi ystyriaeth ehangach hefyd i ddiogelu amgylchedd y môr.

2. CYFNOD A DOSBARTIAD YR YMGYNGHORIAD

Dechreuodd yr ymgynghoriad 12 wythnos ar 21 Ebrill 2017 gyda dyddiad cau o 14 Gorffennaf 2017.

Gwahoddwyd y bobl oedd â diddordeb ym mhysgodfa cregyn moch Cymru i ymateb i'r ymgynghoriad ac roedd y rhain yn cynnwys pysgotwyr, proseswyr a grwpiau amgylcheddol.

Roedd modd i'r ymatebwyr ymateb drwy ddefnyddio arolwg ar-lein, ar e-bost neu drwy ddarparu ffurflen ymateb ysgrifenedig.

I gefnogi dogfen yr ymgynghoriad, rhyddhawyd adroddiad 14 tudalen yn adolygu'r dystiolaeth wyddonol. Roedd hwn yn darparu tystiolaeth ychwanegol i roi gwybod i randdeiliaid am y problemau mae pysgodfa cregyn moch Cymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Hefyd darparwyd Ffurflen Ymateb a oedd yn cynnwys 17 cwestiwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid am opsiynau rheoli posibl.

3. CATEGORïAU ALLWEDDOL

I gynnig esboniad pellach, cafodd yr ymatebion eu grwpio'n categorïau allweddol ac fe'u crynhoir isod:

1	Pysgotwyr cregyn moch masnachol
2	Pysgotwyr pysgod cregyn masnachol
3	Pysgotwyr masnachol
4	Pysgotwyr hamdden
5	Proseswyr
6	Amgylcheddwyr
7	Eraill

4. YMATEBION

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd amser i gyflwyno eu safbwyntiau ac ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried cyn cyflwyno cynllun rheoli.

Derbyniwyd cyfanswm o 89 o ymatebion gan amrywiaeth eang o ymatebwyr oedd â diddordeb ym mhysgodfa cregyn moch Cymru. Roedd y cynrychiolwyr hyn yn gefnogol i'r mesurau arfaethedig, gan ddangos parodrwydd i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun rheoli i warchod a gwella cynaliadwyedd pysgodfa cregyn moch Cymru ar

gyfer y dyfodol. Mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd wedi cael eu cofnodi'n ofalus ac, os yw hynny'n bosibl, mae trawstoriad o'r sylwadau wedi cael ei gyflwyno yn y ddogfen gryno hon.

5. CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfanswm o 17 o gwestiynau ac roedd y cyntaf o'r rhain yn sefydlu diddordeb yr ymatebydd ym mhysgodfa cregyn moch Cymru.

Roedd y cwestiynau eraill yn holi am farn ar sefydlu cynllun trwyddedu hyblyg a nifer o amodau posibl y gellid eu cynnwys, pe bai cynllun trwyddedu'n cael ei weithredu.

Roedd Cwestiwn 17 yn gyfle i'r ymatebwyr gyflwyno gwybodaeth/sylwadau ychwanegol ynghylch yr holl gwestiynau a'i rhagflaenodd.

Cwestiwn 1 – Beth yw'ch cysylltiad â'r diwydiant pysgota cregyn moch yng Nghymru?

Nifer yr Ymatebion yn ôl Categori		
Categori'r ymatebydd	Nifer yr ymatebion	% yr Ymatebwyr o bob Sector
Pysgotwyr Cregyn Moch Masnachol	51	63
Pysgotwyr Pysgod Cregyn Masnachol	3	2
Pysgotwyr Masnachol	20	21
Pysgotwyr Hamdden	2	1
Amgylchedd / Cadwraeth	6	7
Proseswr / Marchnatwr	3	2
Arall *	4	2

*Nid oedd y bobl hyn yn bysgotwyr/amgylcheddwyr gweithredol; fodd bynnag, roeddent yn aelodau o gymdeithasau pysgota.

Cwestiwn 2 – Ydych chi o blaid cynyddu'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MSCRS) o gragen 45mm o hyd i gragen 65mm o hyd?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
72	81	16	18	1	1

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Mae cynyddu'r maint lleiaf yn hanfodol cyn gynted â phosibl. 45mm yw'r maint lleiaf yn awr. Nid ydynt yn atgenghedlu nes eu bod yn 58mm-76mm. Beth ydyn ni'n ei wneud? Pam mae wedi bod yn 45mm am yr holl flynyddoedd yma?
2. Rwyf yn cytuno â'r egwyddor o gynyddu'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf (MCRS) ar gyfer cregyn moch yn nyfroedd Cymru, fodd bynnag, rhaid cael tystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw newid i'r MCRS presennol o 45mm a rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r effeithiau posibl.
3. Rydym yn cytuno'n gryf â sail yr ymgynghoriad hwn h.y. bod pysgodfa cregyn moch Cymru'n wynebu pwysau cynyddol a bod MCRSZ presennol yr UE o 45mm yn annigonol i warchod y stoc ac i sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa yn y tymor hir. Yn y cam hwn, gyda dirywiad difrifol eisoes o bosibl yn nifer y cregyn moch yng Nghymru, mae'n

hanfodol bod cynnydd yn yr MCRS o 45mm yn cael ei weithredu cyn gynted â phosibl er mwyn i'r boblogaeth hon ddechrau adfer.

4. Cragen foch fach yw cragen foch 45mm ar y rhan fwyaf o'r tiroedd ble rydym ni'n pysgota felly byddai'n rhaid i ni gefnogi cynnydd yn y maint glanio ein hunain. Fodd bynnag, mae tiroedd penodol yr ydym yn eu hosgoi oherwydd nid yw'r cregyn moch yn tyfu e.e. tir caletach gyda ffynhonnell gyfyngedig o fwyd iddynt efallai.

Roedd sylwadau'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Cynyddu'r maint i 55 nid 65

Mae'r sylwadau eraill yn cynnwys y canlynol:

Rydym yn gweld hon fel yr her reoli fwyaf i Lywodraeth Cymru, oherwydd ceir tystiolaeth sylweddol sy'n dangos yn glir yr amrywiaeth arwyddocaol ym maint aeddfedrwydd y poblogaethau, gyda rhai'n agos iawn at ei gilydd. Er ein bod yn gwerthfawrogi y gellid ystyried cynnydd cyffredinol at bwrpas gorfodi, rydym yn bryderus y byddai cynnydd i 65mm yn ymddangos fel cryn gyfaddawd o ystyried y raddfa uchel o amrywiadau o amgylch yr arfordir.

Cwestiwn 3 - Ydych chi'n credu y dylai'r MCRS gael ei gynyddu'n raddol? Er enghraifft, dros 2 neu 3 blynedd?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
67	74	13	15	9	10

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Yn amodol ar esboniad mewn perthynas â C.2, byddai gweithredu'n raddol er mwyn cyrraedd y nod o MCRS cynyddol yn lleihau'r effeithiau uniongyrchol ar bysgotwyr, fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau anuniongyrchol
 - Mae rhai pysgotwyr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn offer graddio i raddio cregyn moch llai na 45mm o hyd. Byddai unrhyw gynnydd yn yr MCRS dros 45mm, yn raddol neu fel arall, yn arwain at gostau i ddiwygio yn unol â hynny.
 - Y potensial am ddadleoli gweithgarwch i bysgodfeydd cawell eraill yng Nghymru, a
 - Bydd asesiad llawn o'r effaith economaidd wrth gyflwyno cynnydd yn yr MCRS yn angenrheidiol er mwyn deall effeithiau unigol a chymunedol ehangach.
2. Byddai'n gorfod bod yn gynnydd bach dros gyfnod hir o 6 i 10 mlynedd o leiaf neu byddai pysgotwyr yn dioddef neu'n mynd allan o fusnes. Pam maint lleiaf pan mae Ffrainc yn gweithio ar faint mwyaf i gadw stoc bridio? Drwy gyflwyno maint lleiaf rydych yn ein torri ni o farchnad fawr ac nid yw hynny'n syniad da. Rhaid gwneud mwy o waith i edrych ar faint mwyaf nid dim ond neidio i mewn fel adwaith brys. Y broblem fawr arall yw nad oes unrhyw ffordd fanwl gywir o fesur y cregyn moch. Rydym yn dal llawer o gregyn moch sy'n fwy na 45mm o hyd ond maent yn syrthio drwy'r rhidyll. Rhaid gwneud mwy o waith a dylai'r maint fod ar sail lled y cragen foch, nid ei hyd.
3. Mae'r bysgodfa cregyn moch dan bwysau aruthrol eisoes ac mae wedi bod felly ers peth amser felly mae'n hanfodol gwneud newidiadau cyn gynted â phosibl i warchod beth sydd ar ôl.

Ni wnaeth yr ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig ddarparu sylwadau ychwanegol.

Cwestiwn 4 - Os mai 'YDW' yw'ch ateb i gwestiwn 3, nodwch faint o gyfnod fyddai'n addas:

Er bod 74% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, roedd yr amserlen ar gyfer gweithredu'n amrywio o gynnydd ar unwaith i gynnydd graddol dros nifer o flynyddoedd.

Cyflwynwyd y sylwadau canlynol:

1. Byddai dull graddol o weithredu sydd wedi'i gytuno gyda'r diwydiant pysgota'n sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn briodol a bod gan bysgotwyr amser i addasu iddo.
2. Dros 2 flynedd, pe bai'r maint yn cael ei gynyddu i 55mm ac wedyn i fyny i 65mm, rydw i'n meddwl y byddai hyn yn dda fel bod pysgotwyr ddim yn cael ergyd ariannol mor fawr. Rydw i'n meddwl bod 3 flynedd yn rhy hir.
3. Dechrau yn y flwyddyn gyntaf gyda chynnydd o 5mm ac wedyn 5mm pellach y flwyddyn ganlynol. Fel pysgotwr ym Mae Caerfyrddin, dydw i ddim yn siŵr a fyddai 65mm fel maint cragen foch yn gorfodi pysgotwyr o'u bywoliaeth oherwydd nid yw'r ardal hon wedi cael cregyn moch mawr yn ystod yr 20 mlynedd ers i mi bysgota yma. Dylid gweithredu'r MCRS yn raddol dros 2 flynedd – bydd hyn yn rhoi cyfle i bysgotwyr addasu neu brynu offer rhidyllu newydd.
4. Mae cregyn moch yn wahanol feintiau mewn gwahanol ardaloedd yn y môr h.y. dim ond i 40mm mae cregyn moch yn ardal Caerdydd yn tyfu.
5. Yn amodol ar esboniad mewn perthynas â C.2, byddai gweithredu'n raddol er mwyn cyrraedd y nod o MCRS cynyddol yn lleihau'r effeithiau uniongyrchol ar bysgotwyr, fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau anuniongyrchol.
 - Mae rhai pysgotwyr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn offer graddio i raddio cregyn moch llai na 45mm o hyd. Byddai unrhyw gynnydd yn yr MCRS dros 45mm, yn raddol neu fel arall, yn arwain at gostau i ddiwygio yn unol â hynny.
 - Y potensial am ddadleoli gweithgarwch i bysgodfeydd cawell eraill yng Nghymru, a
 - Bydd asesiad llawn o'r effaith economaidd wrth gyflwyno cynnydd yn yr MCRS yn angenrheidiol er mwyn deall effeithiau unigol a chymunedol ehangach.
6. Mae'r bysgodfa cregyn moch dan bwysau aruthrol eisoes ac mae wedi bod felly ers peth amser felly mae'n hanfodol gwneud newidiadau cyn gynted â phosibl i warchod beth sydd ar ôl.

Cwestiwn 5 – Ydych chi o blaid cynllun ar gyfer trwyddedu cychod sy'n pysgota am gregyn moch yn nyfroedd Cymru?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
83	94	3	3	3	3

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Mae amodau hyblyg yn rhan sylfaenol o drefn ymaddasol yn y dyfodol.

2. Byddai gweithredu dros flwyddyn yn briodol.
3. Byddwn yn cefnogi cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer cychod pysgota am gregyn moch yn nyfroedd Cymru, ar yr amod bod cynllun trwyddedu yn y dyfodol yn ymaddasol ac yn ymateb i amgylchedd morol deinamig sy'n newid, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o bysgotwyr newydd yng Nghymru.
4. Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer y bysgodfa cregyn moch yn helpu i gyfyngu ymhellach ar ddi-hysbyddiad stoc cregyn moch Cymru, gan gymryd y bydd y trwyddedu'n digwydd yn seiliedig ar ddata am ddaliadau blaenorol ar gyfer cychod sydd eisoes yn pysgota cregyn moch yn nyfroedd Cymru. Dylid cyfyngu ar nifer y trwyddedau er mwyn osgoi gorbysgota stoc.
5. Ie i gynllun trwyddedu ond beth yw dyfroedd Cymru? Os mai dim ond ar y bysgodfa fewndirol mae'n effeithio h.y. allan i tua 20 milltir, na felly. Dim ond y cychod llai fydd hyn yn ei daro, targed hawdd, y cychod mawr o Loegr sy'n pysgota ym Mae Ceredigion sy'n gweithio miloedd o gewyll sydd angen eu stopio. Felly trwyddedau Cymru ar gyfer cychod o Gymru allan i'r llinell hanner ffordd gydag Iwerddon, Dyfnaint a Chernyw sydd ei angen. Nid yw'n deg taro'r cychod llai dan 12 metr o Gymru yn unig.
6. Byddem yn cefnogi cynllun trwyddedu, yn enwedig un cyfyngedig, gan fod holl bysgodfeydd y DU yn seiliedig ar enw da, e.e. cregyn bylchog, pysgod gwyn, pysgod cregyn ac ati.

Ni wnaeth yr ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig ddarparu sylwadau ychwanegol.

Cwestiwn 6 - Ydych chi o blaid amodau hyblyg i'r drwydded er mwyn gallu ei hadolygu o dro i dro? Er enghraifft, lwfansau daliadau hyblyg?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
60	67	20	23	9	10

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Mae amodau hyblyg yn allweddol i drefn ymaddasol yn y dyfodol.
2. Byddem yn cefnogi cyflwyno amodau hyblyg i'r drwydded y gellid eu hadolygu a'u haddasu fel a phan ddaw gwybodaeth ychwanegol am y bysgodfa ar gael.
3. Byddai croeso i amodau hyblyg i alluogi ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf ac felly i sicrhau bod y mesurau mwyaf priodol yn eu lle i gyfyngu ar ddi-hysbyddiad stoc cregyn moch Cymru.
4. Ydw, mae amodau hyblyg yn allweddol i drefn ymaddasol yn y dyfodol.
5. Wrth i fwy o wybodaeth gael ei chasglu am y stoc bresennol o gregyn moch, bydd amodau hyblyg yn caniatáu rheolaeth fwy priodol ar y boblogaeth. Dylid seilio unrhyw newidiadau i amodau'r drwydded ar dystiolaeth gadarn a mewnbwn gan drydydd *partïon*.

Ni wnaeth yr ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig hwn ddarparu sylwadau ychwanegol.

Cwestiwn 7 - Ydych chi'n credu y dylai fod yna derfyn ar nifer y trwyddedau?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
31	35	5	6	53	60

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Ydw, dylid cael terfyn ar drwyddedau i gychod Cymru allan i'r llinell hanner ffordd gydag Iwerddon ar un ochr a Dyfnaint a Chernyw ar yr ochr arall.
2. Bydd terfyn ar nifer y trwyddedau'n lleihau'r potensial am ecsbloetio'r boblogaeth o gregyn moch. Dylid seilio'r terfyn hwn ar ddata hanesyddol am bysgotwyr cregyn moch, i sicrhau bod y rhai sydd wedi pysgota cregyn moch yn hanesyddol yn cael trwyddedau cyn y rhai manteisgar.

Ni wnaeth yr ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig hwn ddarparu sylwadau ychwanegol.

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n credu bod 'Rheoli'r Ymdrech' yn amod derbyniol ar y drwydded?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
68	76	10	11	11	12

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Ydw, dylid cael terfyn ar drwyddedau i gychod Cymru allan i'r llinell hanner ffordd gydag Iwerddon ar un ochr a Dyfnaint a Chernyw ar yr ochr arall.
2. Bydd terfyn ar nifer y trwyddedau'n lleihau'r potensial am ecsbloetio'r boblogaeth o gregyn moch. Dylid seilio'r terfyn hwn ar ddata hanesyddol am bysgotwyr cregyn moch, i sicrhau bod y rhai sydd wedi pysgota cregyn moch yn hanesyddol yn cael trwyddedau cyn y rhai manteisgar.

Ni wnaeth yr ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig ddarparu sylwadau ychwanegol.

Cwestiwn 9 - Ydych chi o blaid gosod cap ar faint o bwysau o gregyn moch y cewch eu glanio bob mis?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
68	76	19	21	2	2

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Rwyf yn cytuno mewn egwyddor i 'reoli'r ymdrech' oddi mewn i amodau'r drwydded. Fodd bynnag, byddai'n rhaid diffinio amodau o'r fath a'u seilio ar dystiolaeth. Byddai'n rhaid rhesymu'n llawn y fethodoleg ar gyfer penderfynu ar reoli'r ymdrech a'i defnydd, a byddai'n rhaid ei deall a'i hasesu'n llawn hefyd oddi mewn i fframwaith ymaddasol.

2. Cyfyngu ar bwysau'r cregyn moch i'w glanio i 25 tunnell y mis.
3. Rwyf yn cytuno â chyfyngu ar y dal a byddwn yn cefnogi glanio wedi'i gyfyngu i 20 tunnell y mis.
4. Rydym yn credu bod cyfyngiadau ar ddal yn fwy tebygol o ddadgymell y defnydd o fwy o gewyll na chynllun cyfyngu ar gewyll ac felly'n debygol o arwain at ostyngiad yn y pwysau pysgota. Gall cynlluniau cyfyngu ar ddal ddatblygu mwy o sefydlogrwydd economaidd ac annog gwell rheolaeth a stiwardiaeth ar y bysgodfa. Gobeithio y bydd hyn yn arwain at gyfyngiadau dal cynyddol dros amser, er budd y pysgotwyr unigol sy'n rhan o'r bysgodfa. Dylid osgoi cyfyngiadau dal dyddiol oherwydd gallant amharu ar gynaliadwyedd economaidd pysgodfeydd yn ystod cyfnodau o dywydd gwael. Yn ystod misoedd pan mai dim ond rhyw lond dwrn o weithiau mae cychod yn gallu cyrraedd eu cewyll, gallai gweithredu fel hyn fod yn hynod niweidiol i fusnesau.
5. Bydd hyn yn galluogi cyfyngu ar gyfanswm pwysau'r cregyn moch sy'n cael eu pysgota i sicrhau nad yw'r stoc yn cael ei gorbysgota.

Roedd sylwadau'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig hwn yn cynnwys y canlynol:

1. Na i gwotâu misol. Mae hwn yn gam gwael iawn a bydd yn lladd pysgotwyr oherwydd byddant yn gwthio mewn tywydd drwg i gyrraedd eu cwota misol. Gellid ystyried cwota blynyddol gyda llawer mwy o ymgynghori â physgotwyr.
2. Gallai cap ar lanio misol fod yn ddinistriol gyda thywydd cwbl anwadal Môr Iwerddon. Nid ydym yn meddwl y gallem gefnogi cyfyngiad glanio misol heb wybod mwy am y bwriad ar gyfer ei gynnwys.
3. Cyfyngu ar lanio misol. Dydw i ddim yn siŵr a oes angen hyn os oes cap ar gewyll yn bodoli. A gochelwch rhag cwmnïau mawr sydd â llawer o gychod ac yn gallu eu cylchdroi i ddyfroedd Cymru heb fawr ddim gostyngiad mewn ymdrech. "Byddant yn gwneud hyn."
4. Cap ar lanio. Tunelli blynyddol yn system fyddai'n gweithio'n well.

Cwestiwn 10 – Ydych chi o blaid gosod cap ar nifer y cewyll y cwch eu defnyddio?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
75	85	11	12	2	2

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Rheoli nifer y cewyll i bob cwch e.e. cap ar 500.
2. Cap ar nifer y cewyll y gall cwch eu defnyddio'n syniad gwych. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y pysgotwyr crwydrol mawr yma. Mae'n anodd dechrau dychmygu ar ba lefel fyddwch chi'n gosod y cap ar y niferoedd. Cap I.F.C.A. Dwyreiniol ar 500. Rwyf wedi cynnwys copi o'u trwydded newydd ond rwy'n siŵr eich bod wedi ei gweld eisoes.

3. Rwyf yn cytuno mewn egwyddor i gyflwyno cap ar nifer y cewyll y gellir eu pysgota. Rhaid seilio sut mae'r ffurf yma ar reoli'r ymdrech yn cael ei benderfynu ar lefel cwch ar dystiolaeth a neilltuo methodoleg wedi'i hesbonio'n llawn er mwyn asesu'n llawn y goblygiadau posibl. Byddai asesiadau stoc yn sail i'r cyfyngiadau ar ddal a thrwy hynny i reoli'r ymdrech.
4. Er y byddai'r mesur hwn yn anodd ei orfodi, rydym yn teimlo ei bod yn bwysig pennu ffiniau clir i weithredu ym mhob ffordd bosibl er mwyn gwarchod y stoc o gregyn moch yng Nghymru. Hefyd mae hen gewyll cregyn moch yn gyfran sylweddol o eitemau pysgodfeydd a adewir ar draethau ac sydd angen eu clirio ac efallai y bydd cap o help i leihau hyn.
5. Ond mae hyn yn anodd iawn ei fonitro a'i orfodi'n ymarferol.

Roedd sylwadau'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Na i nifer y cewyll, pam os ydych yn rhoi cwota blynyddol, pam cyfyngu ar nifer y cewyll y gallwn eu defnyddio i ddal y cwota? Nid yw hynny'n gwneud synnwyr.
2. Na. Byddai cyfyngu ar y cewyll yn cael effaith fawr arnom ni. Rydym yn ennill mwy gydag ymdrech fawr am 4 mis, ar ddiwedd y tymor cregyn bylchog, gyda mwy o dir yn dod ar gael i bysgota. Ni allem gefnogi cyfyngu ar gewyll.
3. Er y byddem yn cefnogi'r angen am ystyried lleihau'r ymdrech ar y bysgodfa hynod fregus yma, ni fyddem yn cefnogi cyfyngu ar gewyll. Mae cynlluniau cyfyngu ar gewyll yn heriol iawn i'w gorfodi, yn enwedig mewn pysgodfa lle nad ydym yn gwybod llawer iawn am nifer y cewyll cregyn moch sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Heb bennu cyfyngiadau ar gewyll yn briodol, gall cynlluniau cyfyngu ar gewyll gymell pysgotwyr i bysgota gyda mwy o offer mewn gwirionedd (h.y. os ydynt yn gweld y cyfyngiad fel targed). Mae goblygiadau o ran cost hefyd, i'r diwydiant ac i weinyddiaeth pysgodfeydd, ar gyfer sefydlu, gweinyddu a gorfodi cynlluniau cyfyngu ar gewyll, ac nid oes modd anwybyddu hyn.

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n credu bod 'Casglu Data' yn amod derbyniol ar y drwydded?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
75	85	11	12	3	3

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Bydd casglu data'n ofyniad sylfaenol er mwyn cynnal strategaeth gynaeafu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd rhaid i bysgotwyr ddeall y math o ddata i'w casglu, amledd hynny a hefyd, os yw hynny'n bosibl ,y dechnoleg a ddefnyddir i gasglu ac adrodd yn ôl ar ddata'n awtomatig.
2. Ie i gasglu data, rydym yn gwneud hynny nawr gan ein bod o dan 12 metr.
3. Er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol am bysgodfeydd, mae'n hanfodol cael gwybodaeth safonol a diweddar am gyflwr y stociau. Mae'r cynnig i gynnwys

'gofyniad casglu data' mewn trwyddedau'n ffordd i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n rheolaidd ac yn ddibynadwy gan yr union bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan gyflwr y bysgodfa. Felly rydym yn frwd o blaid cynnwys y gofyniad hwn yn y trwyddedau ac rydym yn teimlo ei bod yn bwysig bod gallu digonol yn Llywodraeth Cymru i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth hon mewn ffordd gadarn ac amserol. Bydd hyn yn sicrhau bod modd canfod unrhyw ddirywiad mewn stociau cyn effeithio ar gynaliadwyedd tymor hir.

4. Ni allwn weld unrhyw broblem wrth gynnwys ffurflenni dal ac ymdrech ar gyfer cychod llai – mae hyn eisoes yn ei le ar gyfer cychod mwy sy'n gorfod llenwi cofnod.

Roedd sylwadau'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig hwn yn cynnwys y canlynol:

1. Nid oes angen casglu data oherwydd mae'r ffatrioedd/marchnatwyr cregyn moch yn cyflenwi'r wybodaeth hon eisoes.

Cwestiwn 12 – Ydych chi'n credu bod 'tymor caeedig' yn erfyn rheoli addas, yn enwedig yn ystod y tymor cynhyrchu wyau?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
68	77	20	22	1	1

Derbyniwyd 77% o'r ymatebion o blaid 'tymor caeedig' gan bysgotwyr cregyn moch/masnachol gweithredol.

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Rydym yn cefnogi'n llawn y cynnig am dymor caeedig ar gyfer y bysgodfa cregyn moch yn ystod y tymor cynhyrchu wyau, i roi cyfle i'r stoc adfer.
2. Rwyf yn cefnogi tymor caeedig yn ystod y tymor cynhyrchu wyau o ganol mis Hydref i ddiwedd mis Ionawr.
3. Byddem yn cefnogi tymor caeedig ar gyfer cregyn moch yng Nghymru rhwng canol mis Hydref a chanol mis Rhagfyr bob blwyddyn, gyda gallu i symud os daw gwybodaeth ychwanegol am gynhyrchu wyau ar gael. Byddem yn pwysleisio y dylid cyflwyno hyn ar sail orfodol, oherwydd gall unrhyw fynd yn groes i'r penderfyniad gwirfoddol i gau wneud drwg i enw da'r diwydiant cyfan, ac mae'n well osgoi hynny.
4. Mewn egwyddor, mae budd i dymor caeedig yn ystod y tymor cynhyrchu wyau a dylid ystyried hynny'n ofalus. Fodd bynnag, yn Ne Cymru, mae ein profiad ni o bysgota cregyn moch o fis Hydref i fis Rhagfyr yn awgrymu nad yw anifeiliaid cynhyrchu wyau'n cael eu dal mewn 'cewyll abwyd' am nad ydynt yn bwydo yn ystod y tymor cynhyrchu wyau. Felly byddai budd tymor caeedig yn gyfyngedig.
5. Rwyf yn cefnogi tymor caeedig yn ystod y tymor cynhyrchu wyau o ganol mis Hydref i ddiwedd mis Ionawr.

Roedd sylwadau'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig hwn yn cynnwys y canlynol:

1. Na i dymor caeedig yn ystod y tymor cynhyrchu wyau - nid ydym yn dal cregyn moch sy'n cynhyrchu wyau oherwydd nid ydynt yn bwydo. Ni allwch ofyn i unrhyw un beidio â gweithio am ddau i dri mis y flwyddyn – mae pob cwch yn fusnes bach gyda benthyciadau, gorddrafftiau a morgeisi, a byddai hyn yn rhoi rhai allan o fusnes. Ac os byddwch yn cyflwyno tymor caeedig, a fyddwch yn agor pysgodfa arall i ni, h.y. pysgodfa môr-gyllyll?
2. Ni allem gefnogi tymor caeedig, yn enwedig ar gyfer y tymor magu. Yn ystod rhai tymhorau, mae wedi bod yn fis lonawr cyn i unrhyw ddodwy ddigwydd. Byddai cynnydd mewn maint yn fwy buddiol.
3. Tymor caeedig - rwy'n tybio os byddwch yn codi'r maint lleiaf yn fwy na'r maint atgenhedlu is y byddai llawer mwy o stoc mag yn cael eu cadw ar y tir yn ystod y misoedd cynhyrchu wyau. Felly efallai na fyddai tymor caeedig yn angenrheidiol?
4. Rwyf yn anghytuno'n llwyr â thymor caeedig gan fod hyn yn dileu'r cyfle i bysgotwyr ennill bywoliaeth i dalu eu biliau, ar gyfer eu busnesau a'u cartrefi, a'r cyfan fydd hyn yn ei wneud fyth gorfodi caledi ar bysgotwyr neu eu symud.

Cwestiwn 13 – Ydych chi o blaid defnyddio tyllau dianc?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
71	80	9	10	9	10

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Rwyf yn cytuno â'r defnydd arfaethedig o 'dyllau dianc' sy'n galluogi i rai ifanc ddianc ar wely'r môr. Tybir y byddai tyllau dianc yn cynnwys addasu ar y tyllau draenio presennol i fod â dimensiwn mwy, sy'n cyfateb i'r cynnydd arfaethedig yn yr MCRS ar gyfer cregyn moch yn nyfroedd Cymru ac yn cael ei benderfynu gan hynny.
2. Rydym yn frwd o blaid y defnydd o dyllau dianc mewn cewyll cregyn moch.
3. Ie i dyllau dianc ond pwy sy'n talu'r gost o newid offer neu ei ailrigio.

Ni wnaeth yr ymatebwyr a oedd yn erbyn y cynnig hwn ddarparu sylwadau ychwanegol.

Cwestiwn 14 – Ydych chi o blaid glanio pob cragen foch mewn bocs pysgod neu sach rhwyd sy'n pwysu hyd at 40kg yr un pan fydd yn llawn o gregyn moch?

Ydw	%	Nac ydw	%	Heb ateb	%
29	33	13	14	47	53

Roedd sylwadau'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Ni ddylai glanio cregyn moch mewn bagiau 40kg fod yn broblem i unrhyw un, felly byddem yn gefnogol i lanio mewn bagiau 40kg.
2. Ie i fagiau llai i lanio cregyn moch ynddynt, ond nid bocsys oherwydd maent yn dringo allan ohonynt, ond eto mae rhai cychod wedi'u rigio ar gyfer defnyddio bagiau

600 kilo, felly nid dim ond mater o newid drosodd i fagiau bach yw hyn. Un o'r problemau mawr yw mesur cregyn moch, yr unig ffordd resymol gywir o wneud hyn yw drwy led nid hyd.

Roedd sylwadau'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

1. Nid yw pwysau'n fesur mor gywir o gregyn moch â maint unigol. Fel mae dogfen sylfaen dystiolaeth Llywodraeth Cymru'n ei amlinellu, mae pwysau'n ddull safonol a ddefnyddir gan reolwyr pysgodfeydd i fonitro toreth y rhywogaethau, yn hytrach na'u haeddfedrwydd unigol.

Sylwadau eraill a dderbyniwyd:

1. Os mai bocsys pysgod neu sachau rhwyd yw'r dull glanio a ffafirir, ni fydd problem. Fodd bynnag, byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r pryderon canlynol ar gyfer y segment o'r fflyd cregyn moch sy'n defnyddio bagiau tunnell i storio cregyn moch ar y dec a'r tir i'r porthladd.
 - Byddai'r gost yn cynyddu oherwydd byddai angen criw ychwanegol i fagio a storio'r cregyn moch yn ddiogel ar y môr.
 - Gallai sachau rhwyd llai gyflwyno ystyriaethau diogelwch ychwanegol, er enghraifft (a) codi a stacio cynyddol gyda llaw ar draws dec sy'n symud
 - Creu 'effaith arwyneb rhydd' posibl a phroblemau sefydlogrwydd o ganlyniad oherwydd sachau llai (yn cael eu storio) yn symud ar draws y dec mewn tywydd gwael.

Cwestiwn 15 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Roedd hwn yn gyfle i dynnu sylw at y materion nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu hystyried yn ystod y broses ymgynghori.

Darparwyd y sylwadau canlynol:

Mae gennyf y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Byddai systemau monitro cychod mewndirol yn gyfle i reoli gwelyau cregyn moch yn 'ofodol' drwy gyflwyno 'Geo-ffensio' o dan drefn rheoli pysgodfeydd ymaddasol/hyblyg. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r dechnoleg arloesol hon fel cyfrwng i reoli rhywogaeth unigol heriol sydd â nodweddion biolegol rhanbarthol / lleol gwahanol.
- Rhaid rhoi ystyriaeth lawn i effeithiau economaidd a'r potensial am symud gweithgarwch yn yr argymhellion terfynol ar gyfer rheoli'r bysgodfa cregyn moch.
- Byddai trefn rheoli pysgodfeydd ymaddasol yn gryfach drwy ffurfio grŵp cynghori sy'n cynnwys gwyddonwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru, cynrychiolwyr pysgota, rheolwyr pysgodfeydd a chynrychiolwyr cyrff anllywodraethol amgylcheddol.
- Byddai grŵp cynghori'n adolygu'r dystiolaeth ac yn cytuno ar argymhellion yn gyson ag adolygiad blynyddol o'r bysgodfa.

Yn ystod tymor caeedig ble fyddai'r cewyll yn cael eu cadw? Does gan borthladdoedd ddim ardaloedd storio. O'u gadael yn y môr, gallent fynd ar goll, felly a fydd Llywodraeth Cymru'n rhoi iawndal am gewyll coll.

Gallai tymor caeedig o 2 fis droi'n dymor caeedig o 4 mis oherwydd tywydd gwael a byddai hyn yn gwahaniaethu yn erbyn cychod llai a hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o golli cewyll. Byddai cynnydd yn y maint lleiaf i 5mm yn dinistrio'r bysgodfa cregyn moch yn ardal Abertawe/Gŵyr yn llwyr, gan fod 40% o'r rhai sy'n cael eu dal rhwng 45mm a 65mm (adroddiad maint aeddfedrwydd J Haig). Mae cregyn moch yn aeddfedu ar faint llai yn ardal Abertawe/Gŵyr (adroddiad maint aeddfedrwydd J Haig). Sut byddech chi'n plismona maint glanio lleiaf, oherwydd ni fyddech yn gallu profi ble mae'r cregyn moch wedi cael eu dal – y tu mewn i'r terfyn 6 milltir neu'r tu allan iddo. Eto byddai hyn yn gwahaniaethu yn erbyn cychod llai.

Nid oes angen casglu data oherwydd mae'r ffatrioedd/marchnatwyr cregyn moch yn cyflenwi'r wybodaeth hon eisoes. Cap ar nifer y cewyll a ganiateir ar gyfer pysgota a chap misol ar bwysau'r cregyn moch sy'n cael eu glanio yw'r ffordd hawsaf i blismona/rheoli'r bysgodfa a gallai leihau nifer y cregyn moch sy'n cael eu glanio'n sylweddol. Byddai hyn yn gwneud llawer mwy i helpu'r boblogaeth o gregyn moch.

Dylid pennu'r MCRS i 55mm (C2). Defnydd gorfodol o ridyll sy'n addas i'r maint hwnnw (meddylwch fod y lled yn 60% o'r hyd)

Ni ddylai unrhyw gwch gael mwy na 650 o gewyll – mae hynny ar gyfer cychod o bob maint.

Mae gennyf y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- * Byddai systemau monitro cychod mewndirol yn gyfle i reoli gwelyau cregyn moch yn 'ofodol' drwy gyflwyno 'Geo-ffensio' o dan drefn rheoli pysgodfeydd ymaddasol/hyblyg. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r dechnoleg arloesol hon fel cyfrwng i reoli rhywogaeth unigol heriol sydd â nodweddion biolegol rhanbarthol / lleol gwahanol.
- * Rhaid rhoi ystyriaeth lawn i effeithiau economaidd a'r potensial am symud gweithgarwch yn yr argymhellion terfynol ar gyfer rheoli'r bysgodfa cregyn moch.
- * Byddai trefn rheoli pysgodfeydd ymaddasol yn gryfach drwy ffurfio grŵp cynghori sy'n cynnwys gwyddonwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru, cynrychiolwyr pysgota, rheolwyr pysgodfeydd a chynrychiolwyr cyrff anllywodraethol amgylcheddol.
- * Byddai grŵp cynghori'n adolygu'r dystiolaeth ac yn cytuno ar argymhellion yn gyson ag adolygiad blynyddol o'r bysgodfa.

Un ffordd lawer mwy effeithlon o reoli'r ymdrech fyddai dyddiau ar y môr wedi'u cyfyngu'n well neu byddai cyfyngiadau dal misol yn haws eu plismona.

Fodd bynnag, rwyf yn meddwl y dylai cychod sy'n pysgota y tu allan i'r terfyn 12 milltir wneud datganiad eu bod yn gwneud hynny a dylai pysgodfeydd roi rhywfaint o ystyriaeth yma i osgoi sefyllfa o dorri rheolau, lle gall cychod mwy, sydd â mwy o allu, ffurfio amddiffyniad yn y llys dros dorri mesurau cadwraeth a sefydlwyd i warchod y rhywogaeth ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Rwyf yn llwyr yn erbyn rhoi cwota neu drwyddedau yn seiliedig ar enw da oherwydd mae hyn yn gwobrwo'r cychod sydd wedi gwneud y difrod mwyaf. Mae'r bysgodfa cregyn moch o amgylch arfordir Cymru'n perthyn i bawb, nid dim ond y rhai sy'n eu dal. Gwell o lawer fyddai caniatáu mynediad i bysgodfa a reoleiddir yn dda ac y gellir ei gorfodi'n hawdd, sy'n

gallu darparu ar gyfer y genhedlaeth hon heb amharu ar y bysgodfa na'r cyfle ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Rydym yn teimlo y dylid gorfodi rhidyllau fel bod cregyn moch ifanc yn gallu mynd yn ôl i'r môr yn fyw a heb gael niwed.

Uchafswm y cewyll ym mhob cwch - 800. Maint - ceisio mynd o 45 i 50 ac wedyn 55. Ceir ardaloedd ym Môr Bryste sydd wedi cynnwys cregyn moch llai erioed. Rydym wedi ystyried y rhain fel brid gwahanol ac nid ydym yn credu y bydd y rhywogaeth lai hon yn tyfu i fod yn 65mil, sy'n golygu y bydd cynnydd mawr mewn maint yn arwain at gau pysgodfa berffaith dda. Wedyn bydd rhaid i gychod o'r ardaloedd hyn dargedu llefydd eraill, sydd dan bwysau eisoes. Capió glanio. Mae tunelli blyneddol yn system a allai weithio'n well.

Un o'r problemau mawr yw mesur cregyn moch – yr unig ffordd resymol gywir o wneud hynny yw yn ôl lled ac nid hyd.

Ar hyn o bryd mae diffyg gwybodaeth am boblogaethau cregyn moch Cymru ac mae'n hanfodol gwneud rhywbeth am hyn cyn gynted â phosibl er mwyn gwneud penderfyniadau doeth am reoli stoc. Mae'r bysgodfa cregyn moch yn wynebu risg o ddi-hysbyddiad pellach wrth i reoleiddio ar rywogaethau eraill dynhau, gan arwain at newid at gregyn moch. Mae'r angen am y mesurau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn tynnu sylw at y ffaith, hyd yn oed heb asesiad stoc ffurfiol, ei bod yn glir bod y bysgodfa cregyn moch o dan bwysau aruthrol. Mae'n bwysig cofio bod cregyn moch yn chwarae rôl ecolegol hanfodol yn amgylchedd morol Cymru, er enghraifft, cystadlir am eu cregyn gan sawl rhywogaeth o grancod meudwyol ac mae llawer o rywogaethau eraill yn byw arnynt. Mae gan ddi-hysbyddiad yr adnoddau cregyn sgil effeithiau, er enghraifft, dim ond pan mae cregyn mawr ar gael y mae'r crancod mwyaf yn gallu tyfu. Mae ffigurau CPUE yn awgrymu bod y stoc wedi dirywio'n ddifrifol eisoes (trochiad 1kg/cawell/dydd o gymharu â throchiad 3kg/cawell/dydd mewn pysgodfeydd cynaliadwy), a fydd yn cael effaith negyddol ar yr ecosystem forol. Y mesurau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf a'r cyfyngiadau a bennir ar y cynigion hyn fydd yn allweddol er mwyn creu pysgodfa gynaliadwy.

Rydym yn cefnogi'r cynnig y dylai pysgodfa cregyn moch Cymru fod yn bysgodfa gyda thrwyddedau. Dylai'r trwyddedau gynnwys amrywiaeth o amodau hyblyg i ganiatáu i Lywodraeth Cymru gyflwyno rheolaeth gynaliadwy ar yr adnodd naturiol hwn. Dylai data asesu stoc gwyddonol perthnasol a chydamserol fod yn sail i'r amodau hyn a adolygir yn achlysurol, fel bod y Rheoleiddiwr yn gallu ymateb i amodau a newid amgylcheddol.

Ar hyn o bryd nid yw'r ymdrech bysgota ym mhysgodfa cregyn moch Cymru'n wynebu unrhyw reoli ar yr ymdrech. Bydd rheoli'r ymdrech a wneir gan bysgotwyr yn y bysgodfa'n gyfrwng allweddol i gyflwyno rheolaeth gynaliadwy. Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio cyfuniad o'r cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad, fel y canlynol:

- * Cyfyngu ar nifer y trwyddedau.
- * Capió pwysau'r cregyn moch y gellir eu glanio mewn cyfnod penodol o amser.
- * Cyfyngu ar nifer y cewyll sy'n cael eu pysgota gan ddeiliaid trwyddedau.
- * Lwfansau dal.

Dylai lwfansau dal neu Gyfanswm y Dal a Ganiateir fod yn seiliedig ar ddata asesu stoc gwyddonol perthnasol a chydamserol fel bod y bysgodfa'n cael ei physgota oddi mewn i gyfyngiadau biolegol diogel. Dylai'r data a'r dadansoddiad hwn fod yn seiliedig ar gynnyg 11

ar ofynion casglu data, a chael eu cefnogi ganddo, gyda physgotwyr yn darparu data pysgodfa hanfodol manwl fel rhan o'r amodau trwyddedu arfaethedig e.e. lleoliad y gweithgarwch, pwysau/maint y rhai a deflir ac ati.

Gan nad oes dull ledled y DU o weithredu, dim ond yn nyfroedd Cymru hyd at derfyn o 12 milltir fydd y mesur hwn yn berthnasol. Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith bositif ar lefel y stoc o gregyn moch, oherwydd, er enghraifft, ym Mae Ceredigion, mae'r rhan fwyaf o'r tiroedd pysgota cregyn moch y tu allan i 12 milltir. Bydd hyn yn golygu y bydd y pysgota'n gallu dal i ddigwydd yn ystod y tymor caeedig ond bydd y cregyn moch yn cael eu glanio ym mhorthladdoedd Lloegr ac Iwerddon.

Bydd hyn yn cosbi proseswyr Cymru'n annheg ac yn eu hatal rhag cael at y stoc, a fydd yn hygyrch o hyd i'r holl broseswyr eraill yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon.

Efallai bod y rheoliad hwn yn torri cyfraith cystadleuaeth y DU a'r UE a bydd yn rhoi mantais annheg i broseswyr a masnachwyr o'r tu allan i Gymru.

Gan ystyried bod pwysau'r cregyn moch sy'n cael eu glanio yn ystod misoedd Awst a Medi ar ei isaf yn ystod y flwyddyn, wedyn daw'r 'tymor caeedig' arfaethedig ar gyfer misoedd Hydref a Thachwedd, ac wedyn ym misoedd Rhagfyr ac Ionawr bydd y tywydd yn lleihau nifer y dyddiau ar y môr i fod yn agos at sero.

Mewn termau real, bydd hyn yn creu cyfnod o 6 mis pan na fydd stoc ar gael i broseswyr o Gymru yn unig, a bydd yn cael ei hecsbloetio gan ddiwydiant yr Alban, Iwerddon a Lloegr.

Ni yw'r allforiwr mwyaf ar bysgod cregyn yng Nghymru, gan arbenigo mewn prosesu cregyn moch o'r safon uchaf.

Rydym wedi'n lleoli mewn ardal ddifreintiedig yn hanesyddol ac rydym yn cydweithredu ag amrywiaeth eang o fusnesau lleol a chenedlaethol, gan gefnogi cyflogaeth yn yr ardal leol.

Bydd amser arfaethedig y tymor caeedig yn cael effaith negyddol ar hyfywedd economaidd diwydiant cregyn moch Cymru ac yn cwestiynu bodolaeth prosesu cregyn moch yng Nghymru. Bydd hyn yn cael effaith economaidd arwyddocaol ar lawer o gwmnïau lleol ac yn peryglu llawer o swyddi, nid yn unig yn ein cwmni ni, ond hefyd mewn llawer o fusnesau cysylltiedig.

Rydym yn croesawu'r ymgynghoriad hwn, sy'n cydnabod yr angen am weithredu i sicrhau pysgodfa cregyn moch sy'n fwy cynaliadwy. Mae cynnydd yn yr MCRS ar gyfer y bysgodfa'n gam hanfodol tuag at gyrraedd y nod hwn.

Fodd bynnag, o ystyried y dystiolaeth ategol a ddarparwyd gyda'r ymgynghoriad, ni ellir ond edrych ar y maint 65mm a gynigir fel rhif mympwyol, nad yw'n cyd-fynd â chanfyddiadau'r ymchwil sydd wedi'i gynnal. Byddai 75mm yn MCRS mwy priodol, gan fod y dystiolaeth (Edmonds a Masfield, 2015) yn awgrymu "na all maint aeddfedrwydd ymhlith cregyn moch Cymru gael ei ystyried fel llai na 76.1mm." Drwy sicrhau nad ydynt yn cael eu pysgota nes eu bod wedi mynd y tu hwnt i aeddfedrwydd rhywiol, byddai patrymau magu cregyn moch yn cael eu sicrhau a byddai disgwyl i'r niferoedd gynyddu, gan greu pysgodfa fwy cynaliadwy ar gyfer pysgotwyr a chadwraethwyr.

Byddem yn croesawu cadarnhad ynghylch a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gynyddu'r maint lleiaf eto yn y dyfodol, neu reoli parthau, oherwydd mae tystiolaeth o wahanol rannau o'r DU ac o wledydd eraill yn datgelu llawer iawn o amrywiadau gofodol o ran maint wrth aeddfedu'n rhywiol.

Hefyd dylid pwysleisio nad yw gorfodi maint lleiaf yn ddigon ynddo'i hun i sicrhau cynaliadwyedd ond hwn fyddai'r dull mwyaf effeithiol o'i ddefnyddio ar y cyd â mesurau eraill.

6. **CRYNODEB**

Gofynnodd yr ymgynghoriad nifer o gwestiynau penodol yn berthnasol i'r canlynol:

- Cynnydd yn y maint lleiaf
- Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer cychod yn pysgota am gregyn moch yn nyfroedd Cymru a chyfyngu posibl ar nifer y trwyddedau a roddir
- Cyflwyniad i amodau hyblyg i'r drwydded, y gellid eu hadolygu'n achlysurol a oedd yn cynnwys
- Rheoli'r ymdrech – yn cynnwys cap ar laniu/cewyll sy'n cael eu pysgota
- Gofynion casglu data
- Cyflwyno tymor caeedig
- Defnyddio tyllau dianc
- Defnyddio bocsys pysgod/sachau rhwyd sy'n pwysu dim mwy na 40kg yr un pan maent yn llawn cregyn moch

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y ffigurau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon yn fanwl gywir.

7. **Y CAMAU NESAF**

Bydd swyddogion gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion a'r sylwadau sydd wedi'u derbyn yn awr. Bydd y swyddogion yn cyflwyno briff i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ac yn ceisio cytundeb i symud ymlaen i ddeddfwriaeth newydd i gyflwyno cynllun trwyddedu hyblyg i reoli pysgodfa cregyn moch Cymru yn gynaliadwy.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid drwy gyfrwng y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i roi gwybod iddynt am unrhyw benderfyniad ac i weithio ar y cyd i fwrw ymlaen â drafftio Offeryn Statudol i ganiatáu cyflwyno'r cynllun trwyddedu newydd.

8. RHESTR O'R YMATEBWYR

(Nid yw manylion y 27 o Ymatebwyr a ofynnodd i'w manylion gael eu dal yn ôl wedi cael eu cynnwys ar y rhestr hon)

Tim Bowman Davies

Dean Parry

Sam Todd

Nigel Sanders

Robert James Gorman

John James Gorman

Paul Mansell

Dr J A O'Connor

Chris Featherston

Gareth Evans

Andrew Mcquirk

Joe Holland

Stuart Allen

Martin Roberts

Carl Davies

Darren Lewis

Gavin Davies

B&M Fishing/AM Seafoods Cyf.

Paul

Barry Thomas

Richard Owen Jones

Rodney Jones

Kenneth Jones

Guto Sion Roberts

Peter Jones

Maldwyn Williams

Geraint Hughes

Stuart Jones

John Ivor Griffiths

John Henry Parry

R E Jones

Brett Garner

Adrian Garner

Dyfed Davies

Shaun Williams

Robert Grahame Hughes

Chris Owen

Glynne Roberts

Owain John Roberts

Mark Roberts

Kevin Denman

Allan Demnan

Cymunedau Pysgota De a Gorllewin
Cymru

John Cooper

Brian Brown

Ted Whitall

MacDuff Shellfish Producers

Cyswllt Amgylchedd Cymru

WFA (Ymateb ar ran Pysgotwyr De/
Gorllewin Cymru)

WFA (Ymateb ar ran Pysgotwyr
Gogledd Cymru)

Glyn Phillips

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Quay Fresh & Frozen Foods Cyf.

Richard Moore

Robert Moore

Kevin Moore

Chris Hughes

Anthony Nash

Kieron Samples

Mike Thomas